Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Elfed
# Mill Lane
# Bwcle
# Sir y Fflint
# CH7 3HQ

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
## a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Uwchradd Elfed yn ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg i ddisgyblion 11 i 16 oed, yn gwasanaethu tref Bwcle. Mae'n cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir y Fflint. Ar hyn o bryd, mae 526 o ddisgyblion ar y gofrestr. Roedd 704 o ddisgyblion ar y gofrestr adeg yr arolygiad diwethaf yn Nhachwedd 2010, pan oedd yr ysgol yn ysgol gyfun 11 i 18 oed. Ers Medi 2014, mae darpariaeth y chweched dosbarth yn yr ardal wedi'i hailstrwythuro, ac mae 27 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 13 ar hyn o bryd.

Mae pymtheg o ddisgyblion yr ysgol wedi'u lleoli yn narpariaeth ag adnoddau anghenion dysgu ychwanegol Sir y Fflint ar y safle, sef 'Hafan'. Mae gan naw o ddisgyblion eraill gofrestriad deuol gydag Ysgol Maes Hyfryd ac maent yn mynychu ail ddarpariaeth ag adnoddau yn Ysgol Uwchradd Elfed. Y ganolfan Cyswllt yw'r enw ar y ddarpariaeth hon erbyn hyn.

Mae dros 15% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig o dan y cyfartaledd o 17.5% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg adref. Daw rhyw 97% o ddisgyblion o gefndir gwyn Prydeinig. Mae naw disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae cyfanswm o 37% o ddisgyblion ar gofrestr anghenion addysgol arbennig yr ysgol, sy'n ganran uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20.1%. Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan dri y chant o ddisgyblion. Mae'r ffigur hwn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ebrill 2006. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys un dirprwy bennaeth a rheolwr busnes. Mae pedwar 'cyfarwyddwr dysgu' sy'n mynychu cyfarfodydd yr uwch arweinwyr. Maent yn rheolwyr canol a chanddynt gyfrifoldebau ysgol gyfan sylweddol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Elfed yn 2014-2015 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,437 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir y Fflint yw £4,794 a'r lleiafswm yw £3,702. Mae Ysgol Uwchradd Elfed yn y pedwerydd safle o'r 12 o ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 wedi bod ymhell uwchlaw'r disgwyliadau ar gyfer llawer o ddangosyddion allweddol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf
- Mae perfformiad disgyblion mewn cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg yn rhagorol
- Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o gyfnodau allweddol blaenorol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion
- Mae disgyblion mwy abl, disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda iawn
- Mae disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu
- Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad, yn gosod targedau priodol iddynt eu hunain ac yn deall y camau nesaf sydd eu hangen i wella'u gwaith
- Mae'r gwaith o gydlynu medrau ysgol gyfan yn rhagorol ac mae cynnydd o ran datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gryfder arbennig

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol effeithiol iawn a gweledigaeth rymus i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ragorol
- Mae arweinyddiaeth fedrus ar bob lefel wedi arwain at berfformiad eithriadol yng nghyfnod allweddol 4 ar gyfer cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg
- Mae dysgwyr yn cynllunio'n llwyddiannus iawn i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion
- Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr nad yw disgyblion yn tangyflawni oherwydd anfantais gymdeithasol
- Ceir diwylliant cadarn iawn o atebolrwydd ar bob lefel
- Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant wedi'u hintegreiddio'n effeithiol ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol
- Mae diwylliant cadarn o fyfyrio a chydweithredu wrth rannu arfer orau mewn addysgu, asesu a medrau drwy gyfleoedd datblygiad proffesiynol effeithiol

## Argymhellion

A1 Codi safonau mewn gwyddoniaeth

A2 Gwella cyfraddau presenoldeb a lleihau lefelau absenoldeb parhaus

A3 Gwella addysgu i gyfateb i'r arfer orau yn yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 4 yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion allweddol dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaleddau ar gyfer ei theulu o ysgolion ac ysgolion tebyg. Yn 2013 a 2014, mae perfformiad yr ysgol wedi bod ymhell uwchlaw disgwyliadau ar gyfer yr ystod cymwysterau sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg. Mae'r perfformiad hwn yn rhagorol. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad mewn llawer o'r dangosyddion allweddol wedi cymharu'n dda iawn â pherfformiad ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Un cryfder arbennig yn yr ysgol yw ei pherfformiad mewn Saesneg a mathemateg. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o gyfnodau allweddol blaenorol yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi gadael heb gymwysterau yn y pedair blynedd diwethaf. Mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl Blwyddyn 11.

Yng nghyfnod allweddol 3, bu tuedd o wella dros y tair blynedd diwethaf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau islaw'r disgwyliadau.

Mae perfformiad da iawn y rhan fwyaf o grwpiau o ddisgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn a merched yn uwch na pherfformiad bechgyn a merched yn eu teulu o ysgolion ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai nag mewn ysgolion tebyg ac ysgolion Cymru ar gyfer llawer o ddangosyddion. Dros y tair blynedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio'n well na disgyblion tebyg yn eu teulu o ysgolion a disgyblion Cymru ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni uwchlaw disgwyliadau.

Mae disgyblion o bob gallu yn gwneud cynnydd da iawn o ran datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau meddwl wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mewn gwersi, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn, yn cofio dysgu blaenorol yn dda ac yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn fedrus i ddatblygu'u dealltwriaeth o sefyllfaoedd newydd. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos dyfalbarhad, yn gosod targedau priodol iddynt eu hunain ac yn deall y camau nesaf sydd eu hangen i wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn parau a grwpiau, gan rannu'u syniadau i ddatrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar ei gilydd a'u hathrawon. Mae llawer yn ateb cwestiynau'n hyderus mewn trafodaethau dosbarth a grŵp. Mae tua hanner y disgyblion yn mynegi'u hunain yn groyw, gan ddefnyddio geirfa eang, ac yn cyflwyno syniadau a barnau manwl. Ymatebion byr y mae ychydig o ddisgyblion yn eu rhoi i gwestiynau ac nid ydynt yn datblygu'u hatebion yn llawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn rhugl o ystod eang o destunau. Maent yn defnyddio awgrym a dod i gasgliad yn effeithiol i gefnogi'u syniadau ac yn dethol gwybodaeth yn dda. Wrth ddadansoddi testunau, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud nodiadau addas ac yn dewis tystiolaeth briodol yn dda i gefnogi'u harfarniad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio geirfa penodol i bwnc yn dda. Maent yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu estynedig manwl at amrywiaeth eang o ddibenion a chynulleidfaoedd, yn aml yn gysylltiedig â sefyllfaoedd a chyd-destunau bywyd go iawn. Mae'r ffurfiau hyn ar ysgrifennu yn cynnwys adroddiadau papur newydd, llythyrau darbwyllol, areithiau, ysgrifennu am deithio a straeon byr. Mae llawer yn cynllunio'n dda i roi strwythur i'w syniadau cyn ysgrifennu darnau estynedig. Mae sillafu, atalnodi a gramadeg llawer o ddisgyblion yn gywir, yn unol â'u gallu. Un nodwedd ragorol yw'r ffordd y mae disgyblion yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu cywirdeb a chynnwys eu gwaith ysgrifennu a'i ailddrafftio. Mae eu gwaith ysgrifenedig yn dangos lefel uchel gynyddol o gywirdeb a mynegiant wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau rhifiadol ac algebraidd cadarn. Maent yn llwyddiannus wrth gymhwyso'u medrau mathemategol at sefyllfaoedd bob dydd i ddatrys problemau. Mae llawer o ddisgyblion yn amcangyfrif ac yn defnyddio mesuriadau yn gywir mewn pynciau fel gwyddoniaeth a thechnoleg. Maent yn gallu llunio graffiau yn dda mewn daearyddiaeth a gwyddoniaeth, ac yn defnyddio'r wybodaeth o gasglu data i arfarnu a llunio casgliadau addas.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3 yn 2014, mae perfformiad disgyblion islaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol, ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o ysgolion tebyg ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Yng nghyfnod allweddol 4, yn y tair blynedd diwethaf, mae cyfran gynyddol o ddisgyblion wedi sefyll yr arholiad TGAU cwrs byr mewn Cymraeg ail iaith. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn cofrestru ar gyfer y cwrs llawn. Yn 2014, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cyflawni gradd A*-C yn y cwrs byr TGAU Cymraeg ail iaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion eraill yn cyflawni cymhwyster NVQ mewn Cymraeg ail iaith.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda mewn dosbarthiadau ac o amgylch yr ysgol. Mae agwedd gadarnhaol iawn at eu dysgu gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, ac maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon. O ganlyniad, ychydig iawn o waharddiadau cyfnod penodol sydd wedi'u gwneud, ac nid oes gwaharddiad parhaol wedi'i wneud am bum mlynedd. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o'r farn fod yr ysgol yn delio'n dda â'r ychydig o achosion o fwlio sy'n codi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau chwaraeon a ffitrwydd buddiol. Mae aelodau o gyngor chwaraeon yr ysgol yn chwarae rhan flaenllaw yn hyrwyddo chwaraeon drwy'r ysgol ac yn hyfforddi mewn sesiynau allgyrsiol.

Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i fod yn rhan o benderfyniadau yn yr ysgol. Trwy gyngor yr ysgol a'r cyngor chwaraeon, a phwyllgor y llyfrgell, mae disgyblion yn

dylanwadu'n llwyddiannus ar agweddau ar fywyd yr ysgol, fel yr ystod eang o weithgareddau amser cinio a'r system gwobrau. Yn eu gwersi, mae bron yr holl ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at wella'u dysgu drwy nodi'u cryfderau a gosod targedau ar gyfer gwelliannau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gwaith codi arian buddiol ar gyfer elusennau. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd da iawn gan bron pob disgybl, gan ddangos aeddfedrwydd arbennig. Maent yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau.

Fe wnaeth presenoldeb yr ysgol wella yn 2014. Mae cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg, ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae'r arweinyddiaeth a'r gwaith cydlynu mewn perthynas â medrau llythrennedd a rhifedd yr ysgol gyfan yn rhagorol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi'i integreiddio'n llawn trwy holl waith yr ysgol ac mae cynnydd o ran datblygu medrau disgyblion yn gryfder sylweddol. Ceir dull cyson o ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd ym mhob pwnc, yn enwedig drwy ansawdd ac ystod gwaith ysgrifennu estynedig. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd gwell na'r disgwyl ar draws y cyfnodau allweddol. Hefyd, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr pellach i ddisgyblion ddatblygu'u medrau. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cyrsiau mewn newyddiaduraeth ac ysgrifennu creadigol, yn ogystal ag ennill cymwysterau cyllid personol ac ystod o gymwysterau medrau. Mae strategaethau a rhaglenni ymyrraeth hynod effeithiol gan yr ysgol ar gyfer yr holl ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt mewn llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol wedi gwella medrau darllen a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus iawn yng nghyfnod allweddol 3. Mae deilliannau darllen a rhifedd yn uchel ar gyfer disgyblion o bob gallu, ac maent yn parhau i wneud cynnydd da iawn drwy gyfnod allweddol 4.

Mae'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn eang a chytbwys ac yn bodloni'r holl ofynion. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar brofiadau cyfnod allweddol 2 trwy drefn bontio gadarn ag ysgolion cynradd lleol. Ceir ystod eang o opsiynau yng nghyfnod allweddo 4 sy'n bodloni anghenion a diddordebau pob disgybl. Mae trefniadau cwricwlwm yr ysgol yn ymatebol iawn i anghenion, diddordebau a galluoedd disgyblion. Mae'r trefniadau hyn wedi arwain at welliant sylweddol mewn safonau yng nghyfnod allweddol 4. Ceir ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac amrediad eang o ddisgyblion yn ymgymryd â nhw. Mae hyn wedi arwain at lawer o ddisgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 2, a phob un o'r disgyblion yn cyrraedd trothwy lefel 1. Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ac mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni lefel ganolradd, ac ychydig yn cyflawni'r lefel sylfaen. Cynigir ystod eang o gyfleoedd allgyrsiol, ac mae cyfraddau cyfranogi yn y rhain yn rhagorol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg ail iaith yn briodol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Rhoddir sylw da i'r dimensiwn Cymreig mewn pynciau heblaw am Cymraeg, ac yn ethos a gweithgareddau'r ysgol. Nid yw cyfleoedd ar gyfer datblygu Cymraeg yn systematig y tu allan i wersi wedi'u datblygu gystal.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy ei datblygu'n briodol drwy hanes, daearyddiaeth, astudiaethau crefyddol, gwyddoniaeth, ac addysg bersonol a chymdeithasol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn effeithiol mewn llawer o wersi. Mae gwybodaeth bynciol gadarn gan bron pob un o'r athrawon, ac mae ganddynt berthnasoedd gweithio da iawn gyda disgyblion.

Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu yn effeithiol iawn. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn dangos cynllunio medrus gyda gweithgareddau dysgu cynyddol heriol, sy'n hyrwyddo meddwl ac yn cyfnerthu dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Defnyddir adnoddau o ansawdd uchel yn dda i gymell ac ennyn diddordeb disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'u medrau holi yn dda iawn i herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus, yn trefnu gweithgareddau â strwythur da ac yn defnyddio gwybodaeth o ddata asesu yn effeithiol i gydweddu tasgau ag anghenion dysgu unigol disgyblion. Yn y gwersi hyn, mae disgwyliadau uchel gan athrawon ac maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol. Maent yn monitro cynnydd yn ofalus yn ystod y wers ac yn ymyrryd yn effeithiol i ddatblygu ac ymestyn meddwl a dealltwriaeth disgyblion. Rhoddir ffocws cyson ar ddatblygu medrau disgyblion, yn enwedig eu hysgrifennu.

Mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu yn llai effeithiol am nad yw'r cynllunio ac adnoddau yn cael eu haddasu'n ddigon da i ddarparu eglurder neu her briodol i bob disgybl. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau'n fedrus i dynnu ar wybodaeth flaenorol disgyblion, nac i annog ymatebion llafar mwy estynedig gan ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cymhwyso'r polisi asesu yn gyson, yn enwedig wrth farcio ar gyfer cywirdeb mewn sillafu ac atalnodi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn i fyny ar y marcio hwn yn gynhyrchiol drwy wirio'u camgymeriadau sillafu ac atalnodi. Mae llawer o sylwadau a wneir yn llyfrau disgyblion yn rhoi arweiniad buddiol ar beth weithiodd yn dda a sut i wella. Mae ychydig o sylwadau yn rhy gyffredinol ac nid yw targedau i wella yn benodol i bwnc. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Un nodwedd gref yw'r defnydd o 'amser gwella a myfyrio pwrpasol', lle bydd llawer o athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion adolygu eu gwaith er mwyn gwella'u medrau ymhellach.

Mae systemau cadarn gan yr ysgol i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio'r wybodaeth a gynhyrchwyd yn eithriadol o dda, i nodi tanberfformiad a darparu strategaethau amserol i gefnogi unigolion a grwpiau. Mae'r monitro manwl hwn o berfformiad wedi cael effaith gadarnhaol ar wella safonau ar gyfer llawer o grwpiau o ddisgyblion mewn dangosyddion allweddol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4.

Mae adroddiadau i rieni yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Maent yn canolbwyntio’n dda ar feysydd i’w gwella sy’n benodol i bwnc. Yng nghyfnod allweddol 3, mae adroddiadau pynciau hefyd yn cynnwys sylwadau defnyddiol ar gynnydd mewn medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gyfrannu at yr adroddiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud sylwadau aeddfed a synhwyrol am eu cynnydd, ac yn dangos eu bod yn gwybod yn dda beth yw eu camau nesaf ar gyfer gwella. Mae’r rhan fwyaf o rieni yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a chefnogi iechyd a lles disgyblion yn un gref, ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ac agweddau. Mae’r polisi lles cynhwysfawr yn amlinellu gweithdrefnau effeithlon ar gyfer delio ag ymddygiad gwael. Fodd bynnag, mae darpariaeth yr ysgol wedi cael llai o effaith ar leihau absenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion ac ar wella presenoldeb disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae’r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a system gwobrau arloesol yn cyfrannu’n effeithiol at ddatblygu iechyd a lles disgyblion.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gyda chyfraniadau gan siaradwyr gwadd, sesiynau ymwybyddiaeth diogelwch y rhyngrwyd, perfformiadau theatrig ac ymweliadau wedi’u trefnu â mannau addoli.

Mae’r ysgol yn darparu arweiniad buddiol i lawer o ddisgyblion wrth wneud dewisiadau ynglŷn â gyrfaoedd a dilyniant i addysg ôl-16 neu gyflogaeth. Mae cynlluniau lles ac ymyriadau gan staff bugeiliol ac asiantaethau allanol o fudd i ddisgyblion agored i niwed sy’n cael eu nodi gan system fonitro effeithiol yr ysgol. Mae’r ysgol wedi datblygu darpariaeth fuddiol ar gyfer y disgyblion mwy agored i niwed drwy’r cyfleuster ‘Cyswllt’ mewn partneriaeth â’r ysgol arbennig leol. Mae’r ddarpariaeth hon yn cefnogi’u hanghenion emosiynol yn dda ac mae wedi gwella presenoldeb, cyflawniad ac agwedd llawer o’r disgyblion hyn.

Mae’r ysgol yn nodi ac yn monitro disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn arbennig o dda. Mae cynlluniau addysgol unigol a chynlluniau lles yn cynnwys targedau perthnasol ar gyfer llythrennedd, rhifedd neu welliannau mewn ymddygiad. Mae’r disgyblion hyn yn elwa ar systemau cymorth cadarn drwy ystod eang o ymyriadau wedi’u teilwra i bob unigolyn. O ganlyniad, mae llawer yn cyflawni deilliannau uwchlaw’r disgwyliadau.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni’r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Ceir ethos cadarnhaol a chynhwysol yn Ysgol Uwchradd Elfed sy'n seiliedig ar barch, uniondeb, gonestrwydd, hunangred a dyheadau uchel. Mae'r gwerthoedd hyn yn treiddio drwy bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhoi cymorth buddiol i ddisgyblion ac yn herio pawb i lwyddo. Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae disgyblion yn cael mynediad cyfartal i holl feysydd darpariaeth yr ysgol. Mae 'gweithgareddau Ychwanegol Elfed' ['Elfed Extra activities'], fel gweithgareddau chwaraeon a diwylliannol amser cinio ac ar ôl ysgol yn arbennig o effeithiol o ran cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'u rhieni.

Mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u rheoli'n ofalus, ac maent yn creu amgylchedd dysgu croesawgar. Mae arddangosiadau o ansawdd uchel yn amlygu ethos a dyheadau'r ysgol. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd coridor yn dathlu cyflawniadau disgyblion ac yn cefnogi'r dysgu yn dda. Mae'r ysgol yn rhannu ei safle gyda'r ganolfan hamdden leol, ac mae'n cael defnyddio ystod eang o gyfleusterau chwaraeon, yn cynnwys cyfleuster pob tywydd, cyrtiau tennis a phwll nofio.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Yn yr amser ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod o her sylweddol. Mae hyn yn cynnwys niferoedd ar y gofrestr yn gostwng, ad-drefnu'r ddarpariaeth ôl-16 yn lleol a gostyngiadau o ran staffio a'r gyllideb. Er gwaetha'r heriau hyn, mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel wedi arwain at berfformiad rhagorol gan ddisgyblion, yn enwedig yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r perfformiad hwn yn cymharu'n hynod eithriadol â pherfformiad bron pob ysgol yng Nghymru.

Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol effeithiol iawn ac ymrwymiad grymus i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu ragorol. Mae ei hymrwymiad yn sicr ac yn effeithio'n amlwg ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'n cyfleu ei gweledigaeth yn llwyddiannus iawn. Mae pob un o'r staff a disgyblion yn rhannu'r weledigaeth gyffredin hon o gydnerthedd, her a'r ymdrech i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hyn yn creu ethos ysgol cefnogol a chadarnhaol iawn lle caiff pawb ei werthfawrogi a'i gymell i gyflawni'n uchel.

Mae'r pennaeth yn cael cymorth eithriadol gan eu huwch dîm rheoli. Gyda'i gilydd, maent yn darparu model arweinyddiaeth a rheolaeth llwyddiannus iawn lle caiff pawb eu herio i gyflawni deilliannau sydd ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Mae uwch arweinwyr yn ffynnu yn eu meysydd cyfrifoldeb dyranedig. Maent yn cynllunio'n llwyddiannus iawn i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, yn cynnwys datblygu safonau llythrennedd a rhifedd uchel a sicrhau nad yw unrhyw ddisgybl yn tangyflawni oherwydd anfantais gymdeithasol. Mae'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn i'w gweld yn amlwg mewn cynlluniau gwella, ac mae'r ysgol yn rhannu'i harfer orau yn y meysydd blaenoriaeth hyn gydag ysgolion eraill ac unigolion ledled Cymru.

Mae disgwyliadau uchel gan arweinwyr ar bob lefel. Maent yn dylanwadu'n gadarnhaol ar waith pob un o'r staff, a chânt eu herio'n gadarn a'u cefnogi'n dda. Mae rolau wedi'u diffinio'n dda a chyfrifoldebau a ddeellir yn glir gan bob un o'r staff addysgu a chymorth. Mae llinellau atebolrwydd yn glir iawn, er mwyn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cyrraedd eu potensial ac yn cyflawni'n dda. Mae hyn yn cyfrannu at lefel uchel o gysondeb yn ansawdd y dysgu, yr addysgu a lles ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dadansoddi data perfformiad yn drwyadl er mwyn llywio cynllunio strategol. Mae systemau'n rhoi ffocws clir ar wella. Ceir cyfathrebu effeithiol iawn ar bob lefel. Mae cyfarfodydd yn canolbwyntio'n helaeth ar wella safonau, ac ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Mae rheoli perfformiad wedi'i drefnu'n dda. Caiff staff eu herio gan dargedau priodol i wella eu perfformiad eu hunain a chodi cyflawniad disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau yn glir a chymerant ran weithredol wrth bennu cyfeiriad strategol yr ysgol. Maent yn wybodus am berfformiad disgyblion, cryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gweithdrefnau systematig a chadarn ar gyfer hunanarfarnu gan yr ysgol. Maent yn rhai parhaus, myfyriol ac wedi'u hymgorffori'n dda ym mhob agwedd a lefel o fywyd yr ysgol. O ganlyniad, mae dealltwriaeth dda iawn gan arweinwyr o'r cryfderau a meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth fanwl hon yn dda i osod blaenoriaethau clir ac i gynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn wedi cyfrannu at y gwelliant sylweddol ym mherfformiad disgyblion, yn enwedig mewn medrau llythrennedd a rhifedd, mewn dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 ac wrth gefnogi lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda iawn i ystod o dystiolaeth uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys barnau disgyblion drwy ystod o grwpiau disgyblion, ac yn fwyfwy effeithiol drwy ddeialog gyda'u hathrawon ynglŷn â'u profiadau dysgu. Caiff barnau rhieni eu casglu drwy holiaduron a thrwy'r grŵp rhieni wythnosol. Hefyd, mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arsylwadau o wersi a chraffu ar waith er mwyn monitro a gwella darpariaeth a safonau o ganlyniad. Mae'r prosesau hyn wedi arwain at gysondeb gwell yn ansawdd yr addysgu a'r asesu a chynnydd sylweddol wrth ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon ac arweinwyr yn gyson ac yn effeithiol iawn wrth ddefnyddio data i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac i nodi meysydd i'w datblygu. Mae'r rhan fwyaf yn gosod targedau heriol ar lefelau unigol, grŵp ac ysgol gyfan. Mae disgyblion a nodir fel rhai sydd mewn perygl o dangyflawni yn cael eu monitro a'u cynorthwyo'n effeithiol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac arfarnol. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau defnyddiol i ddangos effaith y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth ar wella safonau a lles. Mae adroddiadau hunanarfarnu'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn fanwl ac arfarnol hefyd. Mae pob un o'r adroddiadau hunanarfarnu yn cysylltu'n dda â'u cynlluniau datblygu priodol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys chwech o feysydd sy'n adlewyrchu prif flaenoriaethau'r ysgol. Maent yn cynnwys gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, mynd i'r afael â thlodi a gwella'r addysgu a'r dysgu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn fanwl, ac yn cynnwys strategaethau a meini prawf llwyddo clir. Mae cynlluniau datblygu pynciau a chyfnodau allweddol yn dilyn yr un fformat, a cheir lefel uchel o gysondeb ar draws yr ysgol. Yng nghynlluniau datblygu ychydig o bynciau, fodd bynnag, nid yw strategaethau achlysurol i sicrhau'r gwelliannau dymunol yn ddigon pendant bob amser.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu blaenorol.

O ganlyniad i hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella sy'n effeithiol iawn a chyson, mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu fwyfwy cadarn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau gwerthfawr gyda rhieni, a'r gymuned ehangach. Yn benodol, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddatblygu strategaethau i gefnogi dysgu fel teulu a gwella parhad profiad i ddisgyblion a rhieni wrth i ddisgyblion symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Un enghraifft nodedig yw'r rhaglen 'Smooth Moves to Elfed'. Mae'r rhaglen hon yn gwahodd rhieni i weithio gyda'r ysgol dros gyfnod o chwe wythnos cyn i'w plant drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r rhaglen yn cefnogi rhieni, yn magu hyder disgyblion ac yn lleihau unrhyw orbryder wrth symud ysgolion.

Ceir partneriaethau sydd wedi'u sefydlu'n dda gydag ysgolion cynradd lleol, ac mae'r rhain yn cyfrannu at bontio a dilyniant effeithiol. Mae'r ysgol wedi gweithio'n dda gyda'r coleg lleol i ymestyn darpariaeth y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r cwrs Prif Ddysgu Peirianneg.

Mae cysylltiadau cadarn â nifer o asiantaethau yn cefnogi iechyd emosiynol a lles disgyblion. Mae'r grwpiau hyn wedi bod yn arbennig o effeithiol o ran helpu disgyblion sy'n agored i niwed i ymgysylltu'n gadarnhaol yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gyda nifer o sefydliadau cymunedol a grwpiau lleol i ehangu ei darpariaeth, er enghraifft trwy ddarparu ystod o brofiadau, fel cloddio archeolegol ar y safle a phrosiectau celfyddydau yn ystod eu 'hwythnos sgiliau'.

Mae effaith gyfunol y partneriaethau hyn wedi gwneud cyfraniad llwyddiannus at wella safonau a lles disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn effeithiol iawn wrth reoli adnoddau yng nghyd-destun heriol gostyngiadau yn niferoedd disgyblion a staff. O ganlyniad, mae'n gwneud defnydd da iawn o arbenigedd a phrofiad athrawon. Hefyd, mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o staff cymorth â chymwysterau da iawn i gynorthwyo athrawon a disgyblion.

Mae’r pennaeth, y rheolwr busnes a llywodraethwyr yn adolygu cyllid yr ysgol yn eithriadol o dda. Ar y cyd â’r awdurdod lleol, drwy gynllunio hynod ofalus ac effeithiol, maent yn mynd i’r afael yn llwyddiannus â diffyg wedi’i gytuno yn y gyllideb. Y nod yw dileu’r diffyg hwn erbyn Ebrill 2015. Mae’r ysgol yn dyrannu cyllid yn dda i fodloni blaenoriaethau strategol, ac mae cost-effeithiolrwydd pob gwariant yn cael ei arfarnu’n rheolaidd.

Mae system rheoli perfformiad yr ysgol yn nodi anghenion datblygu proffesiynol pob aelod o staff yn llwyddiannus. Caiff staff gyfleoedd buddiol i fyfyrio ar eu harfer ac ymgymryd ag ymchwil a hyfforddiant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar welliannau yn ansawdd yr addysgu, asesu a medrau disgyblion. Ceir diwylliant cadarn iawn o gydweithredu wrth rannu arfer dda ar draws yr ysgol. Hefyd, mae’r ysgol yn chwarae rhan arweiniol yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill i ddarparu arweiniad a hyfforddiant ar feysydd pwysig, fel gwella safonau llythrennedd, mathemateg a datblygu arweinyddiaeth.

Mae’r ysgol yn rheoli’r defnydd o’r grant amddifadedd disgyblion yn dda, wrth gefnogi disgyblion dynodedig a’u teuluoedd a gwella perfformiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Ar sail perfformiad presennol, mae’r ysgol yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn gyffredinol, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 o ran pob un o'r prif ddangosyddion wedi gwella'n raddol dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf, ar sail meincnodau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae'r gwelliant hwn wedi bod yn gyson islaw disgwyliadau wedi'u modelu, ac islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion.

Yn 2014, mae perfformiad mewn Saesneg ar lefel 5 ac uwch yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ar ôl ei gosod yn yr hanner isaf am y ddwy flynedd flaenorol. Fodd bynnag, am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad wedi bod islaw cyfartaledd y teulu. Ar lefel 6 ac uwch, mae perfformiad mewn Saesneg wedi gwella'n fawr yn 2014; mae uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg, ar sail lefelau cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ar ôl ei gosod yn yr hanner isaf am y ddwy flynedd flaenorol.

O ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 5 ac uwch wedi gosod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd diwethaf, ar ôl ei gosod yn y chwarter gwaelod yn 2012. Mae perfformiad mewn mathemateg wedi aros islaw cyfartaledd y teulu am y tair blynedd diwethaf. Ar lefel 6 ac uwch, mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod islaw cyfartaledd y teulu am y tair blynedd diwethaf. Yn 2014, mae perfformiad mewn mathemateg yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg, ar ôl ei gosod yn y chwarter gwaelod yn flaenorol.

Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 5 ac uwch wedi gwella ychydig dros y tair blynedd diwethaf, ond mae'n dal islaw cyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg am bob un o'r blynyddoedd hyn. Ar lefel 6 ac uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi gwella'n fawr yn 2014 ac mae bellach yn gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg, ar ôl ei gosod yn y chwarter gwaelod yn flaenorol. Er gwaethaf gwelliannau ar lefel 6 ac uwch, mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn dal islaw cyfartaledd y teulu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol gryn dipyn uwchlaw'r disgwyliadau ar gyfer Saesneg, ac uwchlaw'r disgwyliadau ar gyfer mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd, ond islaw'r disgwyliadau ar gyfer gwyddoniaeth.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, gyda gwelliant mawr dros y ddwy flynedd diwethaf ar gyfer lleiafrif o ddangosyddion allweddol. Mae'r rhan fwyaf o ddangosyddion wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.

Mae perfformiad o ran trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod ymhell uwchlaw'r disgwyliadau am y ddwy flynedd diwethaf, o fod yn perfformio'n unol â'r disgwyl yn flaenorol.  Mae perfformiad wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg am y ddwy ddiwethaf, ar ôl ei gosod yn yr hanner uwch yn flaenorol.  Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd hwn gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion, ar ôl bod islaw cyfartaledd y teulu yn 2012.

Mae perfformiad trothwy lefel 2 wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu hefyd mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.  Am y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg.  Yn 2014, mae pob un o'r disgyblion wedi cyrraedd trothwy lefel 1.  Mae bron pob un o'r disgyblion wedi cyrraedd trothwy lefel 1 dros y ddwy flynedd flaenorol.  Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf neu'r hanner uwch o ysgolion tebyg.

Mae perfformiad o ran y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod yn gyson uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ei theulu o ysgolion ac uwchlaw disgwyliadau.  Yn 2014, mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg, o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, ar ôl ei gosod yn yr hanner uwch o ysgolion tebyg yn flaenorol.  Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi dangos gwelliant mawr yn y ddwy flynedd diwethaf, ac mae wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu yn ystod y cyfnod hwn, ar ôl bod islaw cyfartaledd y teulu yn flaenorol.  Yn y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar ôl ei gosod yn yr hanner uchaf yn 2012.

Mae perfformiad mewn Saesneg wedi dangos gwelliant mawr yn y ddwy flynedd diwethaf.  Yn 2014, mae perfformiad ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu ac mae wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu yn 2013 ar ôl bod islaw cyfartaledd y teulu yn flaenorol.  Am y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad o ran y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg o ran cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, ar ôl ei gosod yn y chwarter gwaelod yn flaenorol.  Mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn gadarn am y tair blynedd diwethaf.  Mae wedi bod yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu ac wedi gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn.  Mewn gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf.  Yn 2014, mae perfformiad wedi gwella, er ei fod wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu yn gyson am y tair blynedd diwethaf.  O gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim, mae wedi gosod yr ysgol yn y chwarter gwaelod am y tair blynedd diwethaf.

Mae data gwerth ychwanegol ar gyfer 2014 yn dynodi bod cynnydd disgyblion o gyfnodau allweddol blaenorol gryn dipyn yn uwch na'r disgwyliadau ar gyfer trothwy lefel 2 mewn Saesneg a mathemateg a'r dangosydd pwnc craidd.  Mae cynnydd o gyfnodau allweddol blaenorol uwchlaw'r disgwyliadau hefyd ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio, a throthwyau lefel 2 a lefel 1.

Yn y pedair blynedd diwethaf, nid yw'r un disgybl wedi gadael addysg heb unrhyw gymhwyster.  Mae llawer o ddisgyblion yn parhau mewn addysg amser llawn ar ôl 16 oed.  Adroddir mai ychydig iawn o ddisgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, ac mae'r gyfran hon yn well na chyfartaledd yr awdurdod lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2014, mae merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y dangosydd pwnc craidd ac ym mhob un o'r pynciau craidd.  Mewn Saesneg, a'r dangosydd pwnc craidd, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched ychydig yn fwy na chyfartaledd y teulu ond yn llai na chyfartaleddau cenedlaethol.  Mewn mathemateg, mae'r bwlch hwn mewn perfformiad yn debyg i gyfartaledd y teulu ac yn llai na chyfartaleddau cenedlaethol.  Mewn gwyddoniaeth, mae'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn yn fwy na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.  Ar lefel 6 ac uwch, nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched mewn mathemateg.  Mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar lefel 6 ac uwch, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 4 yn 2014, mae perfformiad bechgyn a merched yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched yn eu teulu o ysgolion ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion.  Mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llai na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer llawer o ddangosyddion.  Mae bechgyn yn gwneud yn well na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth, sy'n wahanol i'r teulu a'r darlun cenedlaethol, lle mae merched yn perfformio'n well na bechgyn.  Mae bechgyn yn perfformio'n well na merched hefyd ar drothwy lefel 2 ac yn y dangosydd pwnc craidd.  Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched ar drothwy lefel 1, gan fod pob disgybl yn cyflawni hwn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf ym mhob un o'r dangosyddion.  Yn 2014, nid yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio gystal â disgyblion tebyg yn eu teulu o ysgolion ac yn genedlaethol ar gyfer mathemateg.  Nid yw'r disgyblion hyn yn perfformio gystal â disgyblion tebyg yn eu teulu ar gyfer Saesneg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd, ond mae eu perfformiad yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer y disgyblion hyn.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n gyffredinol dros y tair blynedd diwethaf, gyda pherfformiad cadarn yn 2014 ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion.  Mae perfformiad y disgyblion hyn yn sylweddol well na'r cyfartaledd ar gyfer disgyblion tebyg yn eu teulu o ysgolion ac yn genedlaethol ar gyfer llawer o ddangosyddion, yn enwedig ar drothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg a mathemateg, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio.  Mae'r holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cyflawni trothwy lefel 1 yn y tair blynedd diwethaf.  Yn 2014, mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill gryn dipyn yn llai na'r bwlch mewn perfformiad gyda disgyblion eraill yn eu teulu o ysgolion ac yn genedlaethol.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur uwchradd (cyffredinol)

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 131 | 52<br>40% | 75<br>57% | 4<br>3% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 44% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 131 | 31<br>24% | 74<br>56% | 21<br>16% | 5<br>4% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 131 | 46<br>35% | 76<br>58% | 8<br>6% | 1<br>1% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 131 | 36<br>27% | 82<br>63% | 13<br>10% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 131 | 66<br>50% | 61<br>47% | 3<br>2% | 1<br>1% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 131 | 49<br>37% | 77<br>59% | 4<br>3% | 1<br>1% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 130 | 50<br>38% | 76<br>58% | 4<br>3% | 0<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 131 | 18<br>14% | 80<br>61% | 31<br>24% | 2<br>2% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 131 | 50<br>38% | 68<br>52% | 12<br>9% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 131 | 16<br>12% | 91<br>69% | 21<br>16% | 3<br>2% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 131 | 43 | 74 | 12 | 2 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 33% | 56% | 9% | 2% | |
| | | 29% | 51% | 16% | 4% | |
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 130 | 20 | 68 | 40 | 2 | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | 15% | 52% | 31% | 2% | |
| | | 16% | 54% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 131 | 44 | 85 | 2 | 0 | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 65% | 2% | 0% | |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 130 | 50 | 71 | 9 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 38% | 55% | 7% | 0% | |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 131 | 48 | 80 | 3 | 0 | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | 37% | 61% | 2% | 0% | |
| | | 37% | 54% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 131 | 53 | 76 | 2 | 0 | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 40% | 58% | 2% | 0% | |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 56 | 15 | 31 | 10 | 0 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 27% | 55% | 18% | 0% | |
| | | 28% | 52% | 15% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 12 | 4 | 7 | 1 | 0 | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 33% | 58% | 8% | 0% | |
| | | 28% | 50% | 16% | 6% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

mae'n dynodi'r meincnod - dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 155 | 76 | 72 | 4 | 1 | 2 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 49% | 46% | 3% | 1% | | |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 154 | 70 | 75 | 9 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 45% | 49% | 6% | 0% | | |
| | | 46% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 157 | 80 | 65 | 6 | 1 | 5 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 51% | 41% | 4% | 1% | | |
| | | 50% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 157 | 83 | 70 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 53% | 45% | 1% | 0% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 157 | 26 | 102 | 9 | 4 | 16 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 17% | 65% | 6% | 3% | | |
| | | 22% | 54% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 156 | 48 | 96 | 5 | 2 | 5 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 31% | 62% | 3% | 1% | | |
| | | 33% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 156 | 82 | 72 | 0 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 53% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 157 | 42 | 89 | 20 | 0 | 6 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 57% | 13% | 0% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 157 | 48 | 83 | 16 | 1 | 9 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 31% | 53% | 10% | 1% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 157 | 60 | 87 | 4 | 2 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 38% | 55% | 3% | 1% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 157 | 65 | 76 | 6 | 2 | 8 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 41% | 48% | 4% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 145 | 48 | 69 | 7 | 3 | 18 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 33% | 48% | 5% | 2% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 157 | 68 | 71 | 15 | 2 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 43% | 45% | 10% | 1% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 156 | 74 | 66 | 9 | 2 | 5 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 47% | 42% | 6% | 1% | | |
| | | 41% | 48% | 7% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 156 | 41 | 88 | 12 | 2 | 13 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 26% | 56% | 8% | 1% | | |
| | | 27% | 50% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 153 | 58 | 84 | 4 | 0 | 7 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 38% | 55% | 3% | 0% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 149 | 29 | 77 | 11 | 0 | 32 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 19% | 52% | 7% | 0% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 155 | 57 | 77 | 17 | 0 | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 37% | 50% | 11% | 0% | | |
| | | 35% | 49% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 156 | 74 | 70 | 6 | 0 | 6 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 47% | 45% | 4% | 0% | | |
| | | 40% | 48% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jackie Gapper | Arolygydd Cofnodol |
| Tony Sparks | Arolygydd Tîm |
| Vaughan Elwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Peter Bernard Harrison | Arolygydd Cymheiriaid |
| Paul Williams | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |